

Y COMISIWN GWASANAETHAU CYFREITHIOL

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Paratowyd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993



DATGANIAD POLISI AR Y CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn rhoi'r egwyddor honno ar waith wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru.

AMCANION Y POLISI

Nôd y polisi yw galluogi pawb sy'n cael gwasanaeth gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yng Nghymru, neu sy'n cyfathrebu ag ef, i wneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, yn ôl eu dewis personol.

Cymeradwywyd Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 16 Mawrth 2006 a chymeradwywyd y fersiwn ddiwygiedig hon ar 8 Mehefin 2009.

Ni newidir y Cynllun hwn heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Rhagair

Mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (Y Comisiwn) yn cynorthwyo pobl i gael gwasanaethau cyfreithiol a gwasanaethau cynghori dan nawdd cyhoeddus ledled Cymru a Lloegr. Mae ein gwaith yn canolbwyntio'n bennaf ar sicrhau bod drws cyfiawnder ar agor i bobl fregus a phobl sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol. Er nad yw Deddf Mynediad at Gyfiawnder 1999 y seiliwyd y Comisiwn arni'n gwahaniaethu rhwng sut y byddwn yn cyflawni'n swyddogaethau yng Nghymru ac yn Lloegr, rydym yn sylweddoli bod anghenion yn ddwy wlad yn wahanol a'u bod yn gwahaniaethu fwyfwy o safbwynt deddfwriaeth a pholisi. Mae hyn yn dylanwadu ar ein gwaith o ran polisi, cynllunio a darparu gwasanaethau yng Nghymru.

Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg hon gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn esbonio'n hymrwymiad i'r Gymraeg wrth inni ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae hynny'n cynnwys aelodau'r proffesiwn cyfreithiol ac unrhyw grŵp buddiant penodol yng Nghymru y byddwn yn darparu gwasanaeth ar ei gyfer. Rydym wedi mabwysiadu'r egwyddor y byddwn wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd. Mae'r Cynllun diwygiedig yn esbonio sut y byddwn yn rhoi'r egwyddor honno ar waith wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg wrth ddatblygu'r Cynllun diwygiedig hwn ac yr ydym yn awr yn falch o gyhoeddi'r Cynllun terfynol yr ydym wedi'i fabwysiadu.



Carolyn Regan

Prif Weithredwr, Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

Rhagarweiniad

Pwy ydym, ein trefniadaeth a'n gweithgareddau.

1. Sefydlwyd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (y Comisiwn) ym mis Ebrill 2000. Ni yw'r corff sydd wedi olynu'r hen Fwrdd Cymorth Cyfreithiol. Corff cyhoeddus anadrannol ydym sy'n atebol i'r Gweinidog Cyfiawnder ac yn cael ein cefnogi gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.
2. Diffinnir dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Comisiwn yn Neddf Mynediad at Gyfiawnder 1999. Ein pwrpas yw helpu pobl i gael gwasanaethau cyfreithiol o safon sy'n mynd i'r afael ag anghenion go iawn. Dyma'n cyfraniad at sicrhau bod y system cyfiawnder yn deg, ei bod yn hygyrch ac yn fforddiadwy i bawb, ac at frwydro yn erbyn allgáu cymdeithasol. Ein dyletswydd yw sefydlu, cynnal a datblygu'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol a'r Gwasanaeth Amddiffyn Troseddol. Ledled Cymru a Lloegr, mae'r Comisiwn yn gwario tua £2 biliwn y flwyddyn ar wasanaethau cyfreithiol – tua £75 miliwn y flwyddyn yng Nghymru.
3. Mae'r Comisiwn yn darparu gwasanaethau yng Nghymru ac yn Lloegr. Nid yw gweinyddu cymorth cyfreithiol yn swyddogaeth ddatganoledig.

Egwyddorion cyffredinol

Polisiau a chynlluniau newydd

4. Wrth ddatblygu polisiau a gweithdrefnau newydd neu wrth ystyried effaith polisiau a chynlluniau'r Llywodraeth, byddwn yn rhoi sylw llawn i anghenion defnyddwyr y Gymraeg. Bydd ein polisiau a'n cynlluniau'n gyson â mesurau'r Cynllun hwn.
5. Byddwn yn rhoi proses ffurfiol ar waith i sicrhau bod egwyddorion y cynllun iaith Gymraeg yn cael eu hystyried yn ystod y cam gweithredu. Byddwn yn gwneud hyn drwy gynnwys gofyniad i ystyried unrhyw effaith ar y cynllun hwn yn ein proses rheoli prosiectau safonol.

Safonau'r gwasanaeth

6. Yr ydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o'r un safon uchel yn Gymraeg ag yn Saesneg fel a ddiffinnir yn y cynllun hwn. Mae ein targedau perfformiad a'n safonau gwasanaeth yr un mor berthnasol i'r gwasanaethau a ddarperir yn naill iaith a'r llall. Byddwn yn gyson o ran safon ein gwasanaethau ym mhob un o'n swyddfeydd, ni waeth a ddarperir y gwasanaethau hynny yn Gymraeg ynteu yn Saesneg.
7. Byddwn yn cymryd rhan ym mhwyllgorau'r sector cyfiawnder a'i rwydweithiau i hybu cysondeb o ran defnyddio iaith yn y sector cyfiawnder.

Cyfrifoldeb am y Cynllun a'i wireddu.

8. Prif Weithredwr y Comisiwn sy'n gyffredinol gyfrifol am weithrediad y Cynllun.

Mesurau ar gyfer ymdrin â'r cyhoedd yng Nghymru

Mae'r adran hon yn ymwneud â defnyddwyr gwasanaethau'r Comisiwn yng Nghymru

Ffurflenni

9. Oherwydd eich bod yn cyflwyno'ch cais am gymorth cyfreithiol, a ffurflenni eraill, drwy'ch cyfreithiwr, byddwn yn darparu'n ffurflenni ar gyfer cyfreithwyr a chynghorwyr cyfreithiol yn hytrach nag yn uniongyrchol i'r cyhoedd. Fe'u darperir drwy gyfrwng ein gwefan. Rydym wedi darparu'n ffurflenni yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg er mwyn i'ch cyfreithiwr neu'ch cynghorydd cyfreithiol ddewis yr un fwyaf priodol ar eich cyfer.
10. Mae dyluniad ein ffurflenni dwyieithog yn debyg i ddyluniad y fersiynau Saesneg ac mae safon y ddau yr un fath.
11. Bydd pob ffurflen newydd y bwriedir i'r cyhoedd eu defnyddio yng Nghymru ar gael yn ddwyieithog, a'r fformat a ffefrir fydd cael y Gymraeg a'r Saesneg gyda'i gilydd ar yr un ddogfen. Fodd bynnag, os yw'r ddogfen yn rhy fawr neu'n rhy gymhleth a'i bod yn rhaid cael fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg ar wahân, yna bydd y ddwy fersiwn ar gael yr un mor rhwydd â'i gilydd a dywedir yn y naill fersiwn a'r llall bod y ddogfen ar gael yn yr iaith arall hefyd.
12. Byddwn hefyd yn derbyn ffurflenni Saesneg a lenwir yn Gymraeg.
13. Bydd yr un safonau gwasanaeth yn berthnasol i ffurflenni Cymraeg ag ar gyfer ffurflenni Saesneg.

Gohebiaeth

14. Croesawn llythyrau yn Gymraeg. Anfonir ateb yn Gymraeg. Mae ein hamser targed a'n safonau ansawdd ar gyfer ateb llythyrau yn Gymraeg yn union yr un fath â'r rheini ar gyfer ateb llythyrau yn Saesneg.
15. Wrth ddechrau gohebu mewn unrhyw swyddfa sy'n ymwneud â defnyddwyr o Gymru, byddwn yn ysgrifennu yn Gymraeg at aelodau'r cyhoedd y gwyddom ei bod yn well ganddynt ohebu yn Gymraeg, oni ofynnir inni wneud fel arall. Byddwn yn cadw cofnod cyfredol o enwau unigolion a chyrrff sydd wedi dweud y

byddent yn dymuno cael gohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg. Bydd unrhyw 'gylchlythyron' a anfonwn at y cyhoedd yng Nghymru'n ddwyieithog.

16. Bydd gohebiaeth electronig yn dilyn yr un egwyddorion â'r rhai uchod a bydd manylion cysylltu'r staff sy'n gweithio yn swyddfa Caerdydd yn ddwyieithog ar bob neges electronig.

Galwadau ffôn

17. Mae gennym Bwynt Cyswllt Cymraeg sy'n ymdrin ag ymholiadau Cymraeg gan bobl yng Nghymru. Os byddwch yn ffonio'n Pwynt Cyswllt Cymraeg neu'n swyddfa yng Nghymru, croeso ichi ddefnyddio'r Gymraeg.

18. Os byddwch yn ffonio'n Pwynt Cyswllt Cymraeg neu'n swyddfa yng Nghymru, byddwn yn ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog.

19. Os byddwch yn dymuno sgwrsio yn Gymraeg ond nad yw'r sawl sy'n derbyn yr alwad yn medru'r iaith, os oes modd, byddwn yn eich trosglwyddo i aelod o'r staff sy'n medru'r Gymraeg. Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael, byddwn yn rhoi'r dewis i chi naill ai bod siaradwr Cymraeg yn eich ffonio'n ôl neu eich bod yn parhau â'r alwad yn Saesneg.

20. Y tu allan i oriau busnes, bydd y neges ar y ffôn ateb yn ein Pwynt Cyswllt Cymraeg ac yn ein swyddfa yng Nghymru'n ddwyieithog.

Cyfarfodydd cyhoeddus

21. Pan fyddwn yn trefnu cyfarfodydd yng Nghymru sy'n agored i'r cyhoedd, bydd croeso ichi siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Bydd gwahoddiadau a hysbysiadau sy'n rhoi cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad yn ddwyieithog gan ofyn ichi roi gwybod inni ymlaen llaw os dymunwch ddefnyddio'r Gymraeg. Byddwn yn darparu cyfleusterau cyfieithu a bydd y rheini fel rheol yn gyfleusterau cyfieithu ar y pryd.

Galw heibio i'r swyddfa

22. Bydd y rhan fwyaf o'n busnes yn cael ei wneud drwy ohebiaeth neu dros y ffôn, ond bydd nifer fach o bobl yn galw heibio i'r swyddfa. Mae croeso i bobl sy'n

galw heibio i'n swyddfa yng Nghymru ofyn am weld aelod o'r staff sy'n medru'r Gymraeg. Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael, rhoddir cyfle ichi parhau â'r sgwrs yn Saesneg neu i drefnu apwyntiad lle gallwch drafod eich ymholiad â siaradwr Cymraeg neu gyda chyfieithydd yn bresennol.

23. Os byddwch yn ymweld ag unrhyw un o'n swyddfeydd sy'n ymdrin â phobl o Gymru er mwyn cyflwyno apêl yn erbyn un o'n penderfyniadau (er enghraifft, i wrthod cymorth cyfreithiol yn eich achos, neu i ddileu eich tystysgrif cymorth cyfreithiol) croeso ichi gyflwyno'ch apêl yn y Gymraeg neu yn Saesneg. Cyn y gwrandawriad apêl, gofynnir i chi (neu i'ch cynrychiolydd cyfreithiol) drwy gyfrwng ffurflen ymholi a fyddwch yn dymuno siarad Cymraeg yn y gwrandawriad. Pan wneir cais o'r fath, byddwn yn gwneud ein gorau glas i ddarparu pwyllgor apêl dwyieithog. Os nad oes modd gwneud hynny, darperir cyfleusterau cyfieithu ar y pryd.

24. Rydym wedi paratoi arweiniad mewnol i'n holl weithwyr yn esbonio'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i gydymffurfio â mesurau'r Cynllun hwn wrth iddynt ymwneud â'r cyhoedd yng Nghymru.

25. Byddwn yn cofnodi'r dewis iaith ac yn rhannu'r wybodaeth gydag asiantaethau eraill yn y sector cyfiawnder cyn gynted byth ag y bo modd a lle bydd darpariaethau ynglŷn â chyfrinachedd yn caniatáu hynny.

26. Byddwn yn ymgynghori â'r cyflenwyr sydd dan gontract gennym yng Nghymru i ganfod pa wasanaethau dwyieithog ychwanegol y dylem eu darparu a, lle bo'n rhesymol gwneud hynny, byddwn yn rhoi'r gwasanaethau hynny ar waith.

Hunaniaeth gorfforaethol

27. Mae gennym fersiwn Gymraeg o'n logo. Bydd unrhyw swyddfa a ddynodir i wneud gwaith rheolaidd ar gyfer pobl yng Nghymru'n defnyddio papur swyddogol dwyieithog wrth ymwneud â phobl yng Nghymru.
28. Mae arwyddion cyhoeddus yr ydym yn gyfrifol amdanynt o gwmpas ein swyddfa yng Nghymru, a'r rhai a arddangosir yn ein Cynadleddau ac ati, yn ddwyieithog.
29. Mae Tystysgrif y Nod Ansawdd y byddwn yn ei rhoi i gyrff sydd wedi llwyddo yn y broses sicrhau ansawdd a'r arwyddion y cânt eu dangos wedyn, ar gael yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg.

Cyhoeddiadau

30. Bydd pob deunydd a fwriedir ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru'n cael ei gynhyrchu'n ddwyieithog, a'r fformat a ffefrir fydd y Gymraeg a'r Saesneg gyda'i gilydd yn yr un ddogfen. Fodd bynnag, os yw'r ddogfen yn rhy fawr neu'n rhy gymhleth a'i bod yn rhaid cael fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg ar wahân, yna, bydd y ddwy fersiwn ar gael yr un mor rhwydd â'i gilydd a dywedir yn y naill fersiwn a'r llall bod y ddogfen ar gael yn yr iaith arall hefyd. O ran cynhyrchu dogfennau dwyieithog, rhoddir blaenoriaeth uwch i ddeunyddiau a fwriedir ar gyfer defnyddwyr ein gwasanaethau nag a roddir i'n cyhoeddiadau polisi a fwriedir ar gyfer cynulleidfa lai.
31. Nid yw'r Cynllun hwn yn ymwneud â dogfennau technegol, contractau, arweiniad technegol, gwahoddiadau i dendro a chyhoeddiadau tebyg (dogfennau ymgynghori er enghraifft) lle bydd y cylchrediad wedi'i gyfyngu i'r gymuned dechnegol, e.e. cyfreithwyr, cynghorwyr cyfreithiol a'r cyrff sy'n eu cynrychioli.

Gwefan Rhyngrwyd

32. Mae gan y Comisiwn bedair gwefan ar hyn o bryd – ynglŷn â'r Comisiwn, Cyngor Cyfreithiol Cymunedol, a fwriedir i gynghori'r cyhoedd, Canolfan Ymchwil y Gwasanaethau Cyfreithiol, a'r safle Recriwtio. Bydd y wefan Cyngor Cyfreithiol Cymunedol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd yr holl ddeunydd ar y gwefannau eraill a fwriedir ar gyfer y cyhoedd ac sy'n deillio o Swyddfa Cymru ar gael yn ddwyieithog hefyd. Bydd y Comisiwn yn sicrhau bod pob dogfen sydd o

ddiddordeb i'r cyhoedd yng Nghymru ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar ein gwefannau. Nodir yn glir sut mae cael gafael ar y deunydd Cymraeg sydd ar gael. Byddwn hefyd yn cynnal adolygiad llawn o'r wybodaeth ddwyieithog a ddarperir ar ein gwefannau.

Hysbysiadau i'r wasg, hysbysebu a chyhoeddusrwydd

33. Byddwn yn cyhoeddi hysbysiadau dwyieithog ar gyfer y wasg a'r cyfryngau darlledu yng Nghymru os bydd cynnwys y deunydd o ddiddordeb penodol i'r cyhoedd yng Nghymru. Yn gefn i hyn, mae gennym sawl siaradwr Cymraeg ar gael i gynrychioli'r Comisiwn mewn cyfweiliadau â'r cyfryngau yng Nghymru. Byddwn hefyd yn rhoi copïau dwyieithog o unrhyw hysbysiad i'r wasg a gyhoeddwn ar dudalennau Cymru gwefan y Comisiwn er mwyn cyrraedd cynulleidfa ehangach o siaradwyr Cymraeg.

34. Byddwn yn cyhoeddi hysbysiadau dwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg sydd â chylchrediad lleol yng Nghymru. Bydd hysbysiadau mewn cyhoeddiadau Cymraeg yn Gymraeg yn unig.

35. Bydd y cyfathrebu yn ein holl ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yng Nghymru, bydd arddangosion ac arddangosfeydd ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog.

Gwasanaethau a ddarperir ar ran y Comisiwn gan bartïon eraill

36. Pan fyddwn yn llofnodi cytundeb gyda chorff cyhoeddus arall i ddarparu gwasanaeth ar y cyd ar gyfer y cyhoedd, byddwn yn sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn gyson â thelerau'r Cynllun hwn.

37. Nid yw Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn ymwneud yn uniongyrchol â mwyafrif helaeth y cyrff sy'n cael arian gan y Comisiwn i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol. Fodd bynnag, byddwn yn annog cyrff a noddir i fabwysiadu ethos y Ddeddf, ac unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol, er enghraifft Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Iaith Gymraeg) 2009, drwy gyfrwng y contractau y byddwn yn eu cynnig, lle bo hynny'n briodol ac yn rhesymol. Lle bydd corff a noddir wedi'i gynnwys dan y Ddeddf, bydd y corff hwnnw'n darparu ei wasanaethau'n unol â'i Gynllun ei hun.

38. Rydym wedi rhoi panel o gyfreithwyr Cymraeg eu hiaith ar waith at ein defnydd mewnol ac allanol, a byddwn yn parhau i gynnal y panel hwnnw.

Gweithio mewn partneriaeth

39. Pan fyddwn yn gweithredu fel yr arweinydd strategol ac ariannol o fewn partneriaeth ffurfiol, er enghraifft cyd-gomisiynu, byddwn yn sicrhau bod unrhyw agweddau ar wasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r cynllun hwn.

40. Pan fyddwn yn ymuno â phartneriaeth ffurfiol y mae sefydliad arall yn ei harwain, bydd ein mewnbwn ni yn cydymffurfio â'r cynllun hwn a byddwn yn annog y partneriaid eraill i gydymffurfio â'r cynllun hwn.

41. Pan fyddwn yn bartner mewn consortiwm, byddwn yn annog y consortiwm i gydymffurfio â'r cynllun hwn. Pan fyddwn yn gweithredu yn enw'r consortiwm, byddwn yn gwneud hynny yn unol â'r cynllun hwn.

Strategaeth recriwtio a staffio

42. Rydym yn cyflogi digon o staff Cymraeg eu hiaith i ddarparu'r gwasanaethau a ddisgrifir yn y Cynllun hwn a byddwn yn parhau i fonitro hyn yn unol â'n Strategaeth iaith.

43. A ninnau'n gyflogwr Cyfle Cyfartal, ein polisi yw recriwtio'r ymgeiswyr mwyaf priodol ar gyfer swyddi gwag a'u hyfforddi yn y sgiliau penodol y mae eu hangen arnynt i weithredu'n effeithiol. Rydym wedi mabwysiadu strategaeth sgiliau iaith ar gyfer swyddfa Cymru'r Comisiwn. Mae hon yn nodi ymhle y mae angen sgiliau dwyieithog arnom, ymhle y mae sgiliau o'r fath eisoes ar gael gan y staff, ac ymhle y mae angen inni sicrhau bod sgiliau o'r fath yn cael eu datblygu wrth i gyfleoedd hyfforddi a chyflogi priodol godi. Adolygir hyn yn rheolaidd.

44. Rydym yn annog ein staff i ddysgu'r Gymraeg neu i wella'u sgiliau Cymraeg, a, lle bo hyn yn diwallu angen a ddynodwyd o ran busnes, byddwn yn talu am gost eu hyfforddiant.

45. Byddwn yn datblygu gallu ein staff sy'n siarad Cymraeg i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg drwy ddarparu hyfforddiant galwedigaethol yn Gymraeg, pryd bynnag y bo'n briodol.
46. Bydd hysbysebion recriwtio ar gyfer staff ac ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Cyfreithiol mewn cyhoeddiadau yng Nghymru'n ddwyieithog. Cedwir at yr ymrwymiad hwn, hyd yn oed os nad yw'r swydd sydd i'w llenwi'n swydd lle bo'r gallu i siarad Cymraeg yn ffactor dymunol neu hanfodol. Fel rheol, bydd yr hysbysebion ym mhrif bapurau newydd y DU yn Saesneg.
47. Byddwn yn sicrhau bod pob aelod newydd o'r staff, ni waeth ymhle y bydd lleoliad ei swyddfa, yn cael gwybod am y Cynllun Iaith Gymraeg fel rhan o'i raglen gynefino.

Rhoi'r Cynllun hwn ar waith, ei fonitro a'i gyhoeddi

48. Ceir amserlen ar gyfer rhoi mesurau'r Cynllun hwn ar waith yn Atodiad 1.
49. Bydd y Cynllun hwn yn cael ei fonitro'n barhaus gan y Comisiwn a chyhoeddir Adroddiad dwyieithog penodol bob blwyddyn ynglŷn â'n perfformiad o ran rhoi'r Cynllun hwn ar waith a'i wireddu. Bydd hwnnw ar gael i'r cyhoedd ar ein gwefan ac anfonir copi at Fwrdd yr Iaith Gymraeg.
50. Bydd cwynion gan aelodau'r cyhoedd ynglŷn â methiant i gydymffurfio â'r Cynllun hwn yn rhan bwysig o'r broses monitro. Dylid anfon unrhyw gŵyn am ein gwasanaethau Cymraeg at y Rheolwr Cwynion, y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, Marland House, Sgwâr Canolog, Caerdydd, CF10 1PF neu gallwch ein ffonio ar 0845 6099989. Ymdrinnir â phob cwyn o'r fath yn unol â'r un amserlen a'r un safonau ansawdd ag a geir yn ein gweithdrefn gwyno arferol. Os nad ydych yn fodlon ar ein hymateb, cewch godi'r mater gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
51. Croesewir awgrymiadau ar gyfer gwella'n gwasanaethau yn Gymraeg hefyd ac fe'i hystyrir fel rhan o'n proses monitro. Dylid eu hanfon i'r un cyfeiriad ag a geir ym mharagraff 46 uchod.

52. Bydd y Cynllun diwygiedig hwn, *ar ôl ei gymeradwyo a'i fabwysiadu*, yn cael ei hysbysebu drwy godi posteri ddwyieithog yn ardaloedd cyhoeddus ein swyddfa yng Nghymru. Bydd copïau o'r Cynllun hwn ar gael hefyd ar ffurf dogfen ddwyieithog am ddim gan swyddfa Cymru a bydd honno ar gael ar ein gwefan. Byddwn hefyd yn cynhyrchu ac yn darparu ar gyfer y cyhoedd daflen ddwyieithog sy'n crynhoi elfennau allweddol y Cynllun. Bydd honno'n esbonio sut y gellir cael gafael ar gopïau o'r Cynllun llawn. Byddwn hefyd yn cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ynglŷn â sut mae rhoi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun.

Atodiad 1 - Amserlen

Camau Gweithredu	Amserlen
<p>Polisiâu a chynlluniau newydd (para. 4)</p> <p>1. Rhoi statws cydradd i'r Gymraeg wrth ddatblygu polisiâu a gweithdrefnau newydd neu wrth ystyried effaith polisiâu a chynlluniau'r llywodraeth.</p>	<p>Byddwn yn rhoi cychwyn ar broses ffurfiol i sicrhau bod unrhyw bolisiâu a gweithdrefnau newydd yn cydymffurfio â'n dyletswyddau dan y cynllun hwn o fewn 6 mis i'w roi ar waith.</p>
<p>Gwefannau ar y Rhyngrwyd (para. 32)</p> <p>2. Bydd y Wefan Cyngor Cyfreithiol Cymunedol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.</p> <p>Byddwn hefyd yn cynnal adolygiad llawn o'r wybodaeth ddwyieithog a ddarperir ar ein gwefannau.</p>	<p>Cynllun gweithredu yn ei le ar gyfer gwneud hyn.</p> <p>Byddwn yn cynnal adolygiad llawn sy'n mynd i'r afael â darparu gwybodaeth ddwyieithog ar wefan y Comisiwn ac yn dyfeisio cynllun gweithredu er mwyn cynyddu cynnwys dwyieithog y wefan hon o fewn 6 mis ar ôl rhoi'r cynllun ar waith.</p>
<p>Cyhoeddiadau (para.30)</p> <p>3. Cynhyrchir yr holl ddeunydd a gyhoeddir ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru'n ddwyieithog mewn un ddogfen oni fydd y ddogfen mor fawr neu mor gymhleth nes bod angen cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.</p>	<p>Wedi'i roi ar waith eisoes ac fe wneir hyn yng nghyswllt dogfennau sy'n deillio o Gymru. Byddwn yn sicrhau bod pob deunydd arall a gyhoeddir yn cyflawni'r gofyniad hwn lle bo hynny'n rhesymol ac yn ymarferol. O fewn 6 mis ar ôl mabwysiadu'r cynllun, byddwn yn adolygu pob cyhoeddiad i'r cyhoedd ac yn paratoi cynllun gweithredu.</p>
<p><u>Mesurau ar gyfer ymdrin â'r cyhoedd yng Nghymru (para. 26)</u></p> <p>4. Byddwn yn ymgynghori â'r cyflenwyr sydd dan gontract gennym yng Nghymru i ganfod pa wasanaethau dwyieithog ychwanegol y dylem eu darparu a, lle bo'n rhesymol gwneud hynny, byddwn yn rhoi'r gwasanaethau hynny ar waith.</p>	<p>Byddwn yn cynnal arolwg ymhlith ein darparwyr o fewn 3 mis ar ôl rhoi'r cynllun hwn ar waith er mwyn gweld pa wasanaethau dwyieithog ychwanegol y byddent yn dymuno'u cael a lle bo hynny'n rhesymol, byddwn yn llunio cynllun gweithredu i roi'r gwasanaethau hynny ar waith.</p>

<p>Gohebiaeth a Galw Heibio i Swyddfeydd (para. 15 a 26)</p> <p>5. Byddwn yn cadw cofnod cyfredol o enwau unigolion a chyrrff sydd wedi dweud eu bod yn dymuno cael gohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg.</p>	<p>Byddwn yn cyflwyno system i sefydlu'r dewis iaith pan gysylltir â ni y tro cyntaf ac yn cofnodi'r iaith y dymunir ei defnyddio yn y dyfodol drwy sicrhau bod ffeiliau a chofnodion yn cael eu marcio'n glir.</p> <p>Byddwn hefyd yn cyflwyno system i gofnodi manylion yr unigolion a'r chyrrff sydd wedi dweud eu bod yn dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg.</p> <p>Y ddau o fewn 6 mis ar ôl rhoi'r cynllun hwn ar waith.</p>
<p><u>Rhoi'r Cynllun hwn ar waith, ei fonitro a'i gyhoeddi (para. 47)</u></p> <p>6. Croesewir awgrymiadau ar gyfer gwella'n gwasanaethau yn Gymraeg hefyd ac fe ystyrir hynny'n rhan o'n proses monitro.</p>	<p>Byddwn yn cyflwyno system i ymgynghori ag ymwelwyr Cymraeg eu hiaith â'n swyddfeydd o fewn 6 mis ar ôl rhoi'r cynllun hwn ar waith ynglŷn â'n gwasanaethau Cymraeg er mwyn gweld a oes unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella. Trefnir i roi'r awgrymiadau hyn ar waith lle bynnag y bo hynny'n rhesymol.</p>